

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Pwyllgor: Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

Dyddiad y cyfarfod: 7 Mehefin 2012

Cyfarwyddwr Corfforaethol Perthnasol: Y Prif Weithredwr

Comisiynwr Perthnasol: Mr Gareth Jones

Teitl yr Adroddiad - Adroddiad Monitro 2011/12 i Gomisiynydd y Gymraeg

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

Cyflwyno'r adroddiad monitro i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini cyn ei gyflwyno am gymeradwyaeth i Fwrdd y Comisiynwyr ar 18 Mehefin 2012.

2.0 Cefndir

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n ofynnol i sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru:

- baratoi cynllun iaith Gymraeg fel modd o egluro sut y byddent yn mynd ati i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru
- gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol ar weithrediad ei Gynllun Iaith i Fwrdd yr Iaith Gymraeg

Fe drosglwyddwyd swyddogaethau'n ymwneud â chynlluniau iaith Gymraeg o Fwrdd yr Iaith Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg ar 1 Ebrill 2012 o ganlyniad i Fesur yr Gymraeg (Cymru) 2011. Dros amser, fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd, bydd y Comisiynydd yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae'r adroddiad monitro hwn i Gomisiynydd y Gymraeg yn ymwneud â'r cyfnod 1 Ebrill 2011 i 31 Mawrth 2012.

Cyflwynwyd yr adroddiad monitro i'r Grwp Tasg Iaith ar 22 Mai 2012 a'r bwriad yw ei gyflwyno am gymeradwyaeth i Fwrdd y Comisiynydd ar 18 Mehefin 2012 cyn ei anfon at sylw Comisiynydd y Gymraeg.

3.0 Materion ar gyfer Sgrwtini

Mae'r adroddiad monitro wedi'i strwythuro dan benawdau sy'n cydfynd â gofynion adrodd Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu casgliad o ddangosyddion perfformiad gan y cyn Fwrdd yr Iaith ac wedi gwneud paratodau ar gyfer adrodd arnynt. Mae'r Cyngor Sir wedi llwyddo i adrodd yn erbyn y dangosyddion hyn fel yr amlinellir yn yr Adroddiad Monitro.

3.1 Y Penawdau

Mae'r Adroddiad Monitro yn canolbwyntio ar berfformiad yn erbyn y saith pennawd a restrir isod:

- Cydymffurfio â'r Cynllun
- Ansawdd gwasanaethau rheng flaen yn Gymraeg
- Rheolaeth a gweinyddiad y Cynllun
- Digonolrwydd sgiliau iaith Gymraeg
- Prif Ffrydio
- Dadansoddiad o berfformiad fesul blaenoriaeth/targed
- Cyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad

3.2 Adnabod Risgiau

Yn rhan 6 yr Adroddiad Monitro, adroddir ar gynnydd yn erbyn ein prif flaenoriaethau a risgiau. Y llynedd un o'r risgiau oedd yr angen i fabwysiadu Strategaeth Sgiliau a bellach gyda hyn wedi digwydd, gellir adrodd cryn gynnydd yn erbyn y targed hwn. Yn ogystal, mae gwaith yn mynd rhagddo i rymuso trefniadau Caffael y Cyngor i adlewyrchu gofynion y Canllawiau Caffael a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith a Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyfrwng Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol sef 'Mwy na Geiriau'.

Mae capasiti yr Uned Gyfieithu yn parhau i fod yn risg yn dilyn colli swydd wag dan arbedion ynghlwm â'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy yn y flwyddyn gyllidol 2011/12.

Enw, Carol Wyn Owen
Teitl y Swydd, Rheolwr Polisi a Strategaeth,
Adran Uned Bolisi.

Dyddiad 25 Mai 2012.

Atodiadau

Adroddiad Monitro i Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2011/12 (Atodiad A)

**Penderfyniadau perthnasol a wnaed yn flaenrol gan y Cyngor, y Pwyllgor
Gwaith neu'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol**

*Rhestrwch yma unrhyw benderfyniadau blaenrol perthnasol.

*Os nad oes dim, nodwch "Dim penderfyniadau perthnasol blaenrol".

Papurau Cefndir

Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor, Pedwerydd Argraffiad – Mawrth 2012

Swyddog Cyswllt: Carol Wyn Owen est 2561.



Adroddiad Monitro Blynyddol

i Gomisiynydd y Gymraeg

2011 / 12

(Drafft)

Mehefin 2012

Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais.
Cysylltwch â'r Swyddog Iaith fel y nodir isod os gwelwch yn dda:

Carol Wyn Owen,
Rheolwr Polisi a Strategaeth,
Adran y Dirprwy Brif Weithredwr,
Cyngor Sir Ynys Môn,
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni,
LL77 7TW

Rhif ffôn: (01248) 752561
E bost: cwoce@ynysmon.gov.uk

DRAFT

Adroddiad Monitro Cyngor Sir Ynys Môn i Gomisiynydd y Gymraeg am y cyfnod 2011/12

1. Cyflwyniad

Amcangyfrifwyd yn yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2008 bod oddeutu 63% o boblogaeth Ynys Môn (dros 3 oed) yn siarad Cymraeg o'i gymharu gyda 27% dros Gymru. Mae hyn yn gosod Ynys Môn yn un o gadarnleoedd y Gymraeg. Y Cyngor Sir yw'r cyflogwr mwyaf ar yr ynys ac mae'n cyflogi rhagor na 3000 o weithwyr (gan gynnwys staff yr ysgolion). Mae'r Cyngor yn cydnabod ei gyfrifoldeb i hyrwyddo'r iaith yn gymunedol ac fel cyflogwr i ddenu a chadw siaradwyr Cymraeg i'r sefydliad i ddarparu safon uchel o wasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd.

1.1 Cynllun Iaith y Cyngor Sir

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ei Gynllun Iaith yn cydnabod statws cyfartal i'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg. Y Gymraeg a'r Saesneg yw ieithoedd swyddogol y Cyngor ac mae iddynt yr un statws a dilysrwydd yng ngweinyddiaeth a gwaith y Cyngor. Mae'r Cynllun Iaith a baratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, 1993 yn amlinellu sut mae'r Cyngor yn glynu wrth yr egwyddor o gydraddoldeb wrth ddarparu ei wasanaethau i'r cyhoedd ac wrth gynnal ei weinyddiad mewnol. Cymeradwywyd Cynllun Iaith y Cyngor Sir ar 12 Gorffennaf, 1996 gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac fe gyhoeddwyd yr ail argraffiad yn Awst, 1998 a'r trydydd argraffiad yn Rhagfyr, 2007. Mabwysiadwyd pedwerydd argraffiad y Cynllun Iaith gan y Cyngor Sir ar 6 Mawrth, 2012 ac fe'i gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith ar 26 Mawrth, 2012.

1.2 Rheolaeth o'r Cynllun Iaith

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb am gadw gorolwg dros y Cynllun a'i weinyddu ynghyd â chyfrifoldeb am yr iaith ar lefel strategol. Mae Swyddog Iaith y Cyngor gyda chyfrifoldeb dydd i ddydd am faterion iaith a monitro gweithrediad y Cynllun Iaith a pharatoi'r adroddiad hwn. Mae'r Grŵp Tasg Iaith mewnol wedi'i sefydlu i osod cyfeiriad strategol a chynorthwyo gyda'r gwaith o fonitro ac adolygu cynnydd. Gwneir defnydd o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i graffu materion penodol yn ymwneud â'r maes iaith gan gynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn.

Ym mis Mawrth, 2011, cyhoeddodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Lleol ei furiad i benodi 5 Comisiynydd i redeg Cyngor Sir Ynys Môn o ran arfer swyddogaethau gweithredol y Cyngor ar ei ran. Golyga hyn yn ymarferol fod y mwyafrif o benderfyniadau'r hen Bwyllgor Gwaith yn cael eu gwneud gan y Comisiynwyr oni bai eu bod wedi eu dirprwyo i swyddogion yr Awdurdod. Mae un o'r Comisiynwyr, sef Gareth Jones, gyda chyfrifoldeb am yr iaith Gymraeg.

Gellir cyflwyno unrhyw ymholiadau am weithrediad y Cynllun at y Swyddog Iaith:

Carol Wyn Owen,
Rheolwr Polisi a Strategaeth,
Adran y Dirprwy Brif Weithredwr,
Cyngor Sir Ynys Môn,
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni,
LL77 7TW

Rhif ffôn: (01248) 752561
E bost: cwoce@ynysmon.gov.uk

1.3 Trefniadau Adrodd a Monitro

Yn ei Gynllun Iaith, mae'r Cyngor Sir wedi ymrwymo i fonitro ac adolygu ei weithrediad gan gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i'r Comisiynwyr ac i Gomisiynydd y Gymraeg, sy'n olynu Bwrdd yr Iaith a ddaeth i ben ar ddiwedd Mawrth 2012. Mae'r Adroddiad Monitro hwn am y cyfnod 1 Ebrill, 2011 i 31 Mawrth, 2012 ac wedi ei seilio ar drefniadau adrodd diwygiedig Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r Cyngor Sir hefyd wedi mabwysiadu casgliad o ddangosyddion perfformiad gan Fwrdd yr Iaith ac adroddir ar y rhain yng nghorff yr adroddiad.

2. Cydymffurfio â'r Cynllun

Dan y pennawd hwn, mae disgwyl i'r Cyngor Sir adrodd ar gynnydd yn erbyn targedau Cynllun Gweithredu'r Cynllun Iaith. Mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu'r Cynllun Gweithredu yn Atodiad 1 o'r adroddiad ar y Cynllun Iaith diwygiedig ar 6 Mawrth, 2012. Cyfrifoldeb Grŵp Tasg Iaith y Cyngor Sir fydd monitro cynnydd ac mae gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gyfrifoldeb am ddadansoddi perfformiad yn gorfforaethol ac yn adrannol, gan gymryd camau positif i ymyrryd drwy adnabod bylchau mewn perfformiad. Bydd unrhyw risgiau'n cael eu trosglwyddo i sylw'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'w craffu ymhellach.

2.1 Gwasanaethau Rheng Flaen

Canolbwyntir yma ar y maes Gofal Cwsmer a rhyngwyneb cyhoeddus y Cyngor Sir. Yma, mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir adrodd ar y dangosydd perfformiad isod sy'n canolbwyntio ar wasanaethau rheng flaen sef:

DIG2 – Nifer a % swyddi'r brif dderbynfa, canolfan gyswllt neu siop un stop a ddynodwyd yn rhai 'Cymraeg hanfodol' a % y rhai a lenwyd gan siaradwyr dwyieithog.

I gyd-fynd gyda dymuniad y cyn Fwrdd yr Iaith i'r Cyngor Sir i ymestyn yr hyn yr adroddir arno o dan y dangosydd hwn i gynnwys staff eraill sydd â chyswllt rheolaidd gyda'r cyhoedd megis y llyfrgelloedd a chanolfannau treftadaeth, darperir yr ystadegau a ganlyn:

Lleoliad	Nifer staff dwyieithog	Nifer y staff Di-Gymraeg
Prif dderbynfa	2	0
Swyddfa Arian Môn	5	0
4 Canolfan Hamdden	6	2 Di-Gymraeg 1 medruswydd isel
Parc Mownt	2	0
Llyfrgelloedd	21	2 medruswydd isel 1 dysgwr
Archifdy	4	0
Oriel Ynys Môn	6	0
Canolfannau Treftadaeth (rhai staff tymhorol)	10	5 medruswydd isel
Canolfan Fusnes	4	0
Derbynfa'r Gwasanaeth Cynllunio	2	0

Mae'r ystadegau uchod yn dangos fod 85% o'r staff yn ddwyieithog. Mae'r swyddi hyn sydd yn delio'n uniongyrchol gyda'r cyhoedd yn cael eu hysbysebu'n rhai 'Cymraeg hanfodol'.

2.2 Maes Hamdden

Yn ystod Hydref, 2011, cymerodd y Cyngor ran mewn cynllun ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd, Cyngor Ceredigion a Chyngor Sir Gâr, dan nawdd Bwrdd yr Iaith er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth Hamdden. Roedd hwn yn hyfforddiant penodol ar ymwybyddiaeth iaith gogyfer datblygu pencampwyr o fewn y Canolfannau Hamdden. Mynychodd 4 o staff yr hyfforddiant dros dridiau ar y cyd gyda staff o'r siroedd eraill ac isod rhestrir y deilliannau:

- gosod targedau o ran safonau iaith yng nghynllun busnes y gwasanaeth a fydd yn cael eu monitro trwy hapwiriad siopwr cudd;
- cefnogi staff i ddatblygu terminoleg hamdden trwy gyfrwng y Gymraeg wrth ddarparu gwersi nofio;
- darparu hyfforddiant iaith;
- uwch swyddog y gwasanaeth sy'n ddysgwr i arwain y pencampwyr trwy esiampl.

2.3 Gwasanaethau Plant

Fel rhan o Gynllun Gweithredu'r Prosiect Hyrwyddo Gweithleoedd Dwyieithog gyda'r Tîm Plant o fewn yr Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol a gwblhawyd yn ystod 2010/11, mae system gyfeirio newydd wedi cael ei datblygu gogyfer achosion newydd lle y gofynnir am ddewis iaith y teulu ar y ffurflen gyfeirio er mwyn dynodi gweithiwr achos cyfrwng Cymraeg ar eu cyfer. Y bwriad yw prif lifo'r egwyddor hwn i feysydd eraill o fewn y Gwasanaeth Plant.

2.4 Cwestiynau Meysydd Blaenoriaeth – Gwasanaethau Ieuenctid a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn darparu cyfleoedd priodol i ddefnyddio'r Gymraeg ac mae'r bobl ifanc yn datblygu sgiliau dwyieithog da. Cydnabuwyd hyn gan Estyn yn 2009.

Fe adroddir ar y cwestiynau meysydd blaenoriaeth yn **Atodiad 2**.

2.5 Arolwg Dinasyddion

Yn ystod mis Mawrth, 2012 cynhaliwyd arolwg dinasyddion gan ymgynghorydd allanol i ddeall blaenoriaethau ansawdd bywyd sampl o 1,100 o drigolion ynghyd a'u barn am flaenoriaethau a gwasanaethau'r Cyngor Sir. Manteisiwyd ar y cyfle i fesur bodlonrwydd gyda darpariaeth cyfrwng Cymraeg y Cyngor Sir a'r ymateb a gafwyd oedd bod y mwyafrif o ymatebwyr yn teimlo eu bod yn hapus gyda'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wyneb-yn-wyneb, dros y ffôn ac yn ysgrifenedig (63%, 64% a 65% yn y drefn honno). Yn nodedig, dywedodd ychydig dros un o bob pump 'nad oeddynt yn gwybod'. Roedd un o bob ugain (5%) yn teimlo bod gormod trwy gyfrwng y Gymraeg yn barod neu nad oeddynt eisiau darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Yn ogystal â'r arolwg, cynhaliwyd 5 grŵp ffocws mewn amrywiol leoliadau ar yr ynys ac roedd yr ymatebion a gafwyd yn debyg iawn i'r arolwg, sef fod y rhan helaethaf o'r ymatebwyr yn fodlon gyda'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Roedd y grwpiau ffocws hefyd yn teimlo fod digon o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ac i fewnfudwyr ddysgu'r iaith.

3. Rheolaeth a Gweinyddiaeth y Cynllun Iaith

3.1 Gwasanaethau ar Gontract

Mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir adrodd ar y dangosydd perfformiad a ganlyn sy'n rhoi pwyslais ar weithio drwy bartneriaeth gogyfer darparu gwasanaeth cyfansawdd dwyieithog i'r cwsmer:

DIG 1 – Canran o sampl o gontractau gafodd eu monitro sy'n cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith.

3.1.1 Contractau Gofal Cymdeithasol

Darparwyr Gofal

Mae trefniadau monitro cydymffurfiaeth â gofynion o ran yr iaith Gymraeg o fewn contractau gofal cymdeithasol wedi parhau yn ystod 2011/12 trwy Gytundebau Ansawdd rhwng y Cyngor a'r cartrefi unigol.

O'r wybodaeth a gafwyd gan y cartrefi gofal, gellir dod i'r casgliad bod y sefyllfa'n foddhaol o ran cydymffurfiaeth. Ymddengys bod cymarebau staff a defnyddwyr gwasanaeth dwyieithog yn dderbyniol a bu i'r mwyafrif gyflwyno deunydd ysgrifenedig dwyieithog fel enghreifftiau o gydymffurfiaeth. Mae'r Swyddogion Monitro yn cefnogi un cartref i ddatblygu deunydd ysgrifenedig dwyieithog. Hefyd, cafwyd enghreifftiau o gartrefi'n hyrwyddo gwelliant megis trefnu hyfforddiant yn y gweithle i ddysgwyr Cymraeg a gwneud defnydd o gardiau 'llun a gair' fel rhan o weithrediadau dydd i ddydd, sy'n gwella cyfathrebu yn ogystal â chynorthwyo'r broses o ddysgu'r iaith.

O safbwynt y dyfodol, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn y broses o adolygu trefniadau monitro presennol y gwasanaeth, a hynny'n seiliedig ar egwyddorion Urddas mewn Gofal i sicrhau, lle bynnag y mae hynny'n bosib, bod y ddarpariaeth gwasanaeth yn cwrdd ag anghenion a dewisiadau'r defnyddwyr. Fel rhan o'r gwaith yma, bwriedir diwygio a chryfhau'r Cytundeb Ansawdd presennol a chyflwyno cyfres o ganlyniadau y bydd gofyn i'r darparwyr eu cyflawni. Bydd gofynion o ran yr iaith Gymraeg yn parhau i gael eu cynnwys a'u monitro drwy'r Cytundeb Ansawdd diwygiedig.

Hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn y maes contractau

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cymryd pob cyfle i hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y maes contractau. Er enghraifft, fe wnaed hyn mewn diwrnod agored a gynhaliwyd ym mis Mai eleni er mwyn rhoi cyfle i ddarparwyr presennol, ynghyd â rhai darpar, ddysgu mwy am waith y Cyngor a'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan bartïon sy'n darparu gwasanaeth eu rhan.

Mudiadau Gwirfoddol

Mae'r rhaglen dreigl o fonitro contractau o fewn yr Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol gyda'r sector gwirfoddol wedi parhau yn ystod 2011/12. Fe samplwyd gwybodaeth gan 10 o fudiadau er mwyn monitro niferoedd gwirfoddolwyr a staff dwyieithog. Gwelwyd bod 90% (9 allan o 10) o'r mudiadau a samplwyd gyda 50% neu fwy o un ai staff neu wirfoddolwyr dwyieithog.

3.1.2 Contractau sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc ac ar gyfer darpariaeth cyn oed ysgol

Roedd 2011/12 yn flwyddyn drosiannol wrth i gyllid Cymorth gael ei ddisodli gan drefniadau newydd, sef Teuluoedd yn Gyntaf. Nod Teuluoedd yn Gyntaf yw gwella'r cymorth i deuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi, fel bod y cymorth a ddarperir yn canolbwyntio ar y teulu, yn unigryw, yn integredig, yn rhagweithiol, yn ddwys ac yn lleol. O dan y drefn yma, mae angen nodi anghenion cymunedau lleol a datblygu trefn o ddarparu gwasanaethau sy'n addas i'r anghenion hynny. Bydd adroddiad ar ganlyniadau proses monitro prosiectau 2011/12 yn cael ei gyflwyno i gyfarfod blynyddol y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc ym mis Mehefin 2012.

Bydd y Cyngor Sir y gwneud defnydd o ddogfen gyngor Bwrdd yr Iaith Gymraeg 'Gosod Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Iaith Gymraeg', a gyhoeddwyd ym Mai 2011, er mwyn deall sut i sicrhau fod y Gymraeg yn cael ystyriaeth briodol yn y maes contractau.

3.1.3 Cyllido addysg blynyddoedd cynnar yn y sector nas cynhelir

Mae'r Cyngor Sir yn cyllido 51 o gylchoedd meithrin yn y sector wirfoddol, gan gynnwys staffio, hyfforddiant, cefnogaeth gwricwlaidd, dodrefn, offer a chostau adeiladau. Hefyd, cyllidir Cynllun Cyfeirio er mwyn cefnogi plant gydag anghenion ychwanegol. Mae'r cyllid a rennir yn amodol ar lynu at egwyddorion penodol, sy'n cynnwys yr isod:

“Bydd y darparwyr yn gweithredu o fewn Polisi Iaith yr Awdurdod gan anelu at osod sylfaen gadarn i ddatblygiad ieithyddol y plant yn y Gymraeg”.

Cyfeiriwyd y llynedd at y bwriad i atgyfnerthu'r egwyddorion hyn o 2012/13 ymlaen trwy gytundebau lefel gwasanaeth rhwng yr awdurdod a'r darparwyr unigol. Mae'r gwaith yma wedi symud ymlaen ac fe fydd cytundebau lefel gwasanaeth yn cael eu cylchredeg i'r darparwyr o fewn yr wythnosau nesaf. Bwriedir monitro cydymffurfiaeth trwy ymweliadau rheolaidd gan athrawes gefnogol y blynyddoedd cynnar, pryd y byddai unrhyw bryderon yn cael eu trafod gyda'r swyddog addysg, ac arolygiadau rheolaidd Estyn. Hefyd, bydd yn gyfrifoldeb ar y Tîm Blynyddoedd Cynnar i gyflwyno adroddiad monitro i'r gwasanaeth Addysg ac fe fydd hyn yn digwydd yn ystod yr haf yn flynyddol.

3.1.4 Nawdd, Grantiau a Swyddogaethau Statudol

Mae'r Cyngor yn trefnu i hysbyseb ymddangos yn y wasg leol yn flynyddol yn gwahodd ceisiadau am grant gan fudiadau gwirfoddol a mudiadau eraill. Defnyddir ffurflen gais safonol ar gyfer gwahanol gronfeydd a weinyddir gan y Cyngor. Mae'r ffurflen gais yn cynnwys y cwestiwn canlynol:

Amlinellwch isod sut y byddwch yn defnyddio'r grant i sicrhau gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd. Gall hyn gynnwys eich gwasanaethau (a chyfarfodydd) wyneb yn wyneb, deunydd printiedig, arwyddion a thudalennau gwefan er enghraifft)

Mae'r cwestiwn uchod yn un o gyfres y mae'r swyddogion perthnasol yn eu cymryd i ystyriaeth wrth ystyried y ceisiadau a gafwyd.

Fe hapwiriwyd 17 (40%) o'r 43 chais yr argymhellwyd y dylid eu cymeradwyo am grant yn 2011/12 o ddwy wahanol gronfa. Roedd y rhain i gyd yn ymwneud ag un ai cynnig gwasanaeth i'r cyhoedd neu gynnal digwyddiad arbennig ac ymddengys bod yr ymatebion a gyflwynwyd yn dderbyniol.

3.2 Cwynion

Yn ogystal, canolbwyntir ar safon y gwasanaethau iaith Gymraeg a ddarperir gan y Cyngor Sir trwy adrodd ar y dangosydd perfformiad isod sef:

DIG6 – Nifer y cwynion a dderbyniwyd am weithrediad y Cynllun Iaith a % y cwynion yr ymdriniwyd â hwy yn unol â safonau corfforaethol y sefydliad
--

Bu 4 cwyn yn ystod y cyfnod ac ymdriniwyd â'r 4 yn unol â'r safonau corfforaethol = 100%.

Mae gan y Cyngor Sir Weithdrefn Gwyno a Chanmoliaeth Gorfforaethol a weinyddir gan y Swyddog Gofal Cwsmer ers 1 Mehefin, 2009 ac fe ymgorfforir cwynion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg i'r drefn hon (rhaid i bob cofnod nodi os yw'r gwyn yn ymwneud yn benodol â'r maes iaith

Mae lefelau bodlonrwydd yr achwynydd yn cael ei fesur trwy'r holiadur safonol a ddarperir ar ddiwedd yr ymchwiliad.

Isod ceir dadansoddiad o'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd ynghyd â'r camau cywiro:

Cwyn 1	<p>Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd am fod cofnod uniaith Saesneg wedi ei dderbyn am gyflawniad nofio a'r diffyg darpariaeth hyfforddiant gymnasteg yn yr iaith Gymraeg mewn Canolfan Hamdden.</p> <p>Camau Cywiro –</p> <p>Cofnod Cyflawniad - Y cofnod wedi'i gyfieithu a'i yrru allan. Rheolwyr Canolfannau Hamdden i'w hatgoffa o'r angen i gydymffurfio gyda'r Polisi Iaith.</p> <p>Gwersi Gymnasteg - eglurwyd mai hyfforddwr "allanol" di -Gymraeg oedd yn gweithio ar yr adeg dan sylw a bod yr holl hyfforddwyr / hyfforddwyr cynorthwyol wedi eu hatgoffa o'r angen i gyfathrebu yn y Gymraeg .</p> <p>Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth Hamdden wedi eu cynnwys mewn rhaglen beilot i wella defnydd o'r Gymraeg gan staff yn yng Nghanolfannau Hamdden yr Ynys.</p> <p>Bodlonrwydd :- nodwyd bodlonrwydd gyda chynnwys a phrydlondeb yr ymateb</p>
--------	---

<p>Cwyn 2</p>	<p>Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â gwall sillafu ar dudalen flaen y Papur Cymunedol.</p> <p>Camau Cywiro - camau wedi eu cymryd i gryfhau'r systemau prawf ddarllen er mwyn lleihau'r risg i'r dyfodol.</p> <p>Bodlonrwydd :- nodwyd bodlonrwydd gyda chynnwys a phrydlondeb yr ymateb</p>
<p>Cwyn 3</p>	<p>Derbyniwyd cwyn gan Gyngor Cymuned oherwydd bod aelodau o'r Gyngor wedi sylwi bod diffyg staff dwyieithog mewn derbynfydd adeiladau'r cyngor a chanolfannau hamdden.</p> <p>Camau Cywiro - Nodwyd bod y Cyngor fel rheol yn cyflogi staff dwyieithog mewn swyddi sy'n dod i gyswllt a'r cyhoedd. Hefyd nodwyd bod bwriad i ail godi ymwybyddiaeth staff am ofynion y Cynllun Iaith a bod staff y Canolfannau Hamdden wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn ddiweddar.</p> <p>Bodlonrwydd: ni dderbyniwyd unrhyw ymateb.</p>
<p>Cwyn 4</p>	<p>Derbyniwyd cwyn gan Fwrdd yr Iaith yn dilyn cwyn iddynt hwy gan Gymdeithas yr Iaith ynglŷn â phenderfyniad y Cyngor i beidio â chyfieithu cofnodion manwl o gyfarfod Pwyllgor Sgriwtini.</p> <p>Camau Cywiro:- Wedi ymchwilio i mewn i'r gwyn, roedd yn amlwg mai'r trawsgrifiad oedd heb ei gyfieithu gan mai dogfen fewnol oedd hon gan fod aelodau'r pwyllgor yn dadlau am gynnwys y cofnodion. Roedd cofnodion manwl y Pwyllgor ar gael ar y We yn ddwyieithog. Felly, rhoddwyd sicrhad nad oedd y Cyngor wedi gwneud unrhyw benderfyniad o ran peidio â chyfieithu cofnodion Pwyllgorau.</p> <p>Bodlonrwydd:- bodlon gyda'r eglurhad a bod y Cyngor yn parhau i weithredu'n unol â gofynion y Cynllun Iaith.</p>

4. Digonolrwydd Sgiliau Iaith Gymraeg

4.1 Adnoddau Dynol, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Dan y pennawd hwn, mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir adrodd ar y dangosydd isod:

DIG5 – nifer a % y staff o fewn gwasanaeth y Cyngor sy'n medru siarad Cymraeg (ac eithrio athrawon a staff ysgol)

- fesul adran wasanaeth
- yn ôl gradd y swydd
- fesul gweithle (swyddfa, canolfan a phrif swyddfeydd ardal).

Mae'r Cyngor Sir bellach yn gweithredu'i Strategaeth Sgiliau ac yn cydnabod ei fod yn greiddiol i sicrhau fod gan y sefydliad y sgiliau dwyieithog ar hyn o bryd ac i'r dyfodol i ddarparu dewis iaith i'r cyhoedd.

Mae'r Adain Adnoddau Dynol wedi derbyn adolygiad ac un argymhelliad a wnaethpwyd oedd bod angen cryfhau'r capasiti staffio. Mae hyn bellach ar y gweill ac fe fydd y datblygiad hwn efallai'n cynnig cyfleoedd i adolygu'r maes hwn ymhellach ar lefel strategol a gweithredol i'r dyfodol. Yn ogystal, mae'r system gyfrifiadurol hunan wasanaeth 'Northgate' bellach yn weithredol sy'n galluogi'r Cyngor i gofnodi a monitro sgiliau iaith y gweithlu. Mae'r system newydd wedi ein galluogi i adrodd yn llawnach ar y dangosydd hwn trwy ddarparu dadansoddiad o sgiliau iaith fesul graddfa swydd.

Dangosir yr ystadegau cyfredol isod:

Diffiniadau	
0	Dim Sgiliau
1	Yn gallu sgwrsio'n gyffredinol (cyfarchion, enwau, dywediadau, enwau lleoedd)
2	Yn gallu ateb ymholiadau syml sy'n ymwneud â'r gwaith
3	Yn gallu cynnal sgwrs â rhywun arall, gyda pheth petruster, am faterion gwaith arferol
4	Yn gallu siarad yr iaith yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gyda rhai geiriau Saesneg
5	Rhugl – yn gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau, am gyfnod estynedig pan fo angen

Dadansoddiad fesul Adran

Swyddfa'r Prif Weithredwr (canran dychweliadau – 100%)

	L0	L1	L2	L3	L4	L5
%	0%	0%	0%	0%	0%	100%

Adran y Dirprwy Brif Weithredwr (canran dychweliadau – 96%)

	L0	L1	L2	L3	L4	L5
%	3%	3%	3%	3%	9%	79%

Adran Datblygu Cynaliadwy (canran dychweliadau – 42%)

	L0	L1	L2	L3	L4	L5
%	2%	8%	3%	3%	14%	71%

Adran Dysgu Gydol Oes (canran dychweliadau – 30%)

	L0	L1	L2	L3	L4	L5
%	0%	11%	2%	0%	11%	75%

Adran Cymuned (canran dychweliadau – 48%)

	L0	L1	L2	L3	L4	L5
%	8%	8%	6%	6%	15%	58%

Dadansoddiad Fesul Graddfa Swydd

Cyfarwyddwyr/Penaethiaid Gwasanaeth

	L0	L1	L2	L3	L4	L5
%	0%	6%	0%	0%	13%	81%

Graddfeydd S01, S02 a P0

	L0	L1	L2	L3	L4	L5
%	2%	7%	4%	5%	16%	67%

Graddfa 1-6

	L0	L1	L2	L3	L4	L5
%	7%	6%	5%	5%	13%	64%

4.2 Adnoddau Dynol a Sgiliau

Mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir adrodd ar y dangosydd isod sy'n canolbwyntio ar y maes adnoddau dynol a datblygiad sgiliau ieithyddol er mwyn sicrhau bod gan y sefydliad y sgiliau angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cwsmer.

DIG4 – Adnoddau Dynol – sgiliau

- (a) nifer a % y staff (siaradwyr Cymraeg a dysgwyr) sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel o gymhwyster penodol.
- (b) Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.

Isod darperir gwybodaeth am y niferoedd a fynychodd y gwahanol lefelau o gymhwyster hyfforddiant iaith a gynigir am y cyfnod adrodd:

Cymhwyster	Nifer
Cwrs Wlpan – Dechreuwyr Pur	14
Cwrs Wlpan – Dechreuwyr	10
Cwrs Wlpan (cyrsiau allanol)	3
Cwrs Meistroli (cyrsiau allanol)	3
Cwrs Pellach (cwrs allanol)	1
Gloywi iaith	12
CYFANSWM	43

Darperir elfen o hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith dan y Cynllun Anwytho Staff ac yn ystod y cyfnod hwn adrodd dan sylw fe'i derbyniwyd gan y niferoedd a ganlyn:

Dyddiad	Niferoedd
8 Mehefin, 2011	10
6 Medi, 2011	7
5 Hydref, 2011	7
2 Tachwedd, 2011	17
11 Ionawr, 2012	14
1 Chwefror, 2012	6
6 Mawrth, 2012	7
CYFANSWM	68

Yn ogystal â'r niferoedd uchod, darparwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ar 3 Medi, 2011, trwy bartneriaeth â'r Fenter Iaith, i arweinyddion Clybiau Ieuenctid yr ynys i'w trwytho ar ddulliau i brif lifo'r Gymraeg i weithgareddau ieuenctid. Cyfeirir yn fwy manwl at hyn yn Atodiad 2.

Mae trefniadau ar y gweill yn ogystal i ddarparu sesiynau ymarferol ar gyfer staff Canolfannau Hamdden yr ynys fel dilyniant i'r Cynllun Pencampwyr Canolfannau Hamdden.

5. Prif Ffrydio'r Gymraeg

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn diffinio prif ffrydio fel yr angen i ystyried y Gymraeg ym mhob agwedd o waith y sefydliad. Golyga hyn gymryd pob cyfle i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg, cyfrannu at weledigaeth y Llywodraeth o Gymru ddwyieithog a chynllunio a darparu gwasanaethau yn y ddwy iaith. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn 'annog prif-ffrydio materion yn ymwneud â'r Gymraeg o fewn...Llywodraeth leol'. Nodir yn ogystal fod angen i 'egwyddorion prif ffrydio fod yn sail i'r gwaith o wneud polisi a darparu gwasanaethau ar draws holl gyfrifoldebau cyrff o'r fath.' Isod ceir rhai enghreifftiau o sut mae'r Cyngor Sir yn ceisio prif ffrydio'r Gymraeg.

5.1 Cynllun Hyrwyddo a Hwyluso Gweithleoedd Dwyieithog (Newid Agweddau)

Roedd y prosiect hwn a gynhaliwyd yn ystod gaeaf 2011 ac a ariannwyd gan Fwrdd yr Iaith yn ddilyniant naturiol i'r prosiect blaenorol 'Cynyddu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn y Weinyddiaeth'.

5.1.1 Nodau'r Prosiect

Roedd nodau'r prosiect fel a ganlyn:

- Meithrin agwedd gefnogol drwy'r holl weithlu tuag at ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y weinyddiaeth;
- Sicrhau perchnogaeth gorfforaethol at y datblygiadau gan gynnwys perchnogaeth Aelodau Etholedig;
- Atgyfnerthu a chreu awyrgylch gadarnhaol o du'r sefydliad i gyflogeion ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y weinyddiaeth;
- Annog a chynorthwyo'r cyflogeion i ddefnyddio'r Gymraeg at ddibenion gwaith drwy ddefnyddio'r cyfleoedd sydd eisoes yn bodoli.

5.1.2 Dulliau Gweithredu

Defnyddiwyd y fethodoleg a ganlyn i gyflawni nodau'r prosiect:

- Creu Pecyn Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith i ddefnydd yr Uwch Reolwyr;
- Ymgynghorydd annibynnol yn cynnal cyfarfod un yn un gyda phob Pennaeth Gwasanaeth, y Comisiynydd Gareth Jones sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg a phob Aelod Etholedig ar y Pwyllgor Gwaith Cysgodol i'w hargyhoeddi o'r egwyddorion uchod;
- Ymgynghorydd annibynnol yn cwblhau holiadur gyda phob Pennaeth Gwasanaeth er mwyn dadansoddi eu defnydd o'r iaith Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd;
- Ymgynghorydd annibynnol yn cwblhau Cynllun Gweithredu gwasanaeth gyda phob un o'r Penaethiaid Gwasanaeth.

5.1.3 Traw effaith y Prosiect

- Creu strwythur strategol i bob gwasanaeth, trwy'r Cynlluniau Gweithredu i gynyddu'r ffocws ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn y weinyddiaeth fewnol;
- Sicrhau monitro cynnydd y Cynlluniau Gweithredu trwy'r Grŵp Tasg Iaith;
- Gosod y cyfrifoldeb ar y Comisiynydd, Aelodau Etholedig ac uwch reolwyr i ddylanwadu'n gadarnhaol ar agweddau staff ac yn sgil hynny, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg;
- Sicrhau trwy gyfweiliadau gwerthuso staff fod cyfle i drafod materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg a hyfforddiant iaith;
- Parhau i ddefnyddio sgiliau'r Pencampwyr Iaith a'r meddalwedd cyfrifiadurol ' Cysgliad' i gynyddu hyder staff i ddrafftio trwy gyfrwng y Gymraeg.

5.2 Cynllun Hyrwyddo a Hwyluso Gweithleoedd Dwyieithog (Ymwybyddiaeth Iaith Gyda'r Tîm Plant - Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)

Adroddwyd y llynedd ar gynnydd y prosiect llwyddiannus uchod sydd wedi cyfrannu at osod y Gymraeg fel blaenoriaeth strategol o fewn yr Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol. I'r dyfodol, bydd yr Adran yn cymryd stoc o'i Gynlluniau Gweithredu ar lefel strategol yng nghyd-destun Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyfrwng Gymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol sef 'Mwy na Geiriau'. Yn ogystal, mae un o'r Penaethiaid Gwasanaeth yn gweithredu fel Pencampwr Iaith ar lefel strategol o fewn yr Adran ac fel pencampwr iaith AWASH sef yr 'All Wales Adult Services Heads'. O safbwynt gweithredol bwriedir rhannu'r pecyn hyfforddiant a gynhyrchwyd gogyfer staff y Tîm Plant i staff y timau eraill o fewn yr Adran.

5.3 Grŵp Tasg Iaith

Yn ystod y cyfnod adrodd fe adolygwyd ac atgyfnerthwyd rôl a statws y Grŵp Tasg Iaith ar lefel strategol o fewn y sefydliad. Yn ddiweddar mae'r Grŵp wedi rhoi mewnbyn ar yr adolygiad o'r Cynllun Iaith ac wedi derbyn ystadegau ar benodiadau staff o fewn y sefydliad. Bydd y Cynlluniau Gweithredu Gwasanaeth yn cael eu cyflwyno i'w monitro maes o law.

5.4 Fforwm Iaith

Mae trefniadau ar y gweill ar y cyd gyda'r Fenter Iaith i ail sefydlu'r Fforwm Iaith Sirol fel cyfrwng strategol i raeadru amcanion 'Iaith Fyw Iaith Byw' ar lefel cymunedol. Mae corff o'r fath yn hanfodol ar hyn o bryd i adnabod bylchau mewn darpariaeth mewn perthynas â'r iaith Gymraeg ac i rannu gwybodaeth am arfer da/pryderon am sefyllfaoedd risg. Bydd hyn yn cynnwys darparu mewnbyn i Aseidiadau Effaith ar ddatblygiadau megis yr 'Ynys Ynni'. Bydd cylch gorchwyl y Fforwm yn canolbwyntio ar y meysydd a ganlyn:

- **Gweithgareddau Cyfrwng Cymraeg** - cyfrannu tuag at gynyddu'r gweithgareddau cymdeithasol sydd yn cynnig cyfleon i'r ifanc yn ogystal â mewnfudwyr gymdeithasu ac ymarfer y defnydd o'r Gymraeg.
- **Y Gymraeg a'r Economi leol** - cydweithio i gynyddu cyfleoedd i godi proffil yr iaith Gymraeg yn yr economi leol a rhoi gwerth economaidd i'r iaith trwy gynlluniau adfywio, twristiaeth ddiwylliannol a'r sector dai.

5.5 Technoleg Gwybodaeth

5.5.1 Tradod

Mae'r Cyngor Sir wedi buddsoddi yn y meddalwedd Cof Cyfieithu 'Tradod' er mwyn osgoi dyblygu gwaith. Mae'r gwaith o adeiladu cronfa o dermau a chyfieithiadau hanesyddol yn parhau ond mae'n broses araf oherwydd mai un drwydded yn unig sydd gennym. Efallai y bydd pethau'n newid yn wyneb y cydweithio sydd ar y gweill oherwydd y posibilrwydd y bydd modd rhannu cof cyfieithu gydag awdurdodau eraill. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa eto pan fydd canlyniadau'r trafodaethau hyn yn hysbys.

5.5.2 Y Wefan

Mae'r Cyngor Sir yn parhau i ymestyn y ddarpariaeth sydd ar gael trwy gyfrwng y Wefan yn y dulliau a ganlyn:

- trwy ddarparu 'Facebook' yn ddwyieithog (mae 45 o ddilynwyr cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd);
- trwy gychwyn darparu'r cyfrwng 'Twitter' yn ddwyieithog dros yr haf;
- trwy'r rhaglen Modern Gov sydd ar hyn o bryd yn darparu cofnodion pwyllgorau'n ddwyieithog ac sydd â phosibiliadau eraill i'r dyfodol megis e-ddeisebu a gwasanaethau etholiadol;
- trwy ddarparu bas-data gwybodaeth ddwyieithog i deuluoedd trwy gyfrwng y we;
- trwy gychwyn blog dwyieithog i'r gwasanaeth Datblygu Economaidd (cynllun peilot yw hyn a all gael ei ymestyn i wasanaethau eraill maes o law);
- trwy gynnig gwasanaeth ymgeisio am swyddi ar linell ddwyieithog yn ystod yr haf.

5.6 Fframwaith Asesu Effaith Cydraddoldeb

Cyfeiriwyd y llynedd at benderfyniad y Cyngor i integreiddio asesiadau effaith ar y Gymraeg gydag asesiadau effaith ar gydraddoldeb ac fe ddyfynnwyd dau gwestiwn a oedd wedi'u cynnwys yn y templed drafft a oedd yn cael ei ddatblygu ar y pryd. Ymatebodd Bwrdd yr Iaith fod angen ail ystyried geiriad cwestiynau'r asesiad fel eu bod yn fwy eglur ynglŷn â'r hyn sydd angen ei asesu. Yn dilyn ymgynghoriad â'r Bwrdd, mae cwestiynau newydd wedi'u cynnwys, ynghyd â chanllawiau mwy manwl sy'n seiliedig ar ddogfen Bwrdd yr Iaith - 'Cyngor ar brif ffrydio'r Iaith Gymraeg'.

Mae'r dyfyniadau perthnasol o'r canllawiau a'r templed ar gael yn **Atodiad 3**.

5.7 Rhesymoli Partneriaethau/Cynllun Integredig

Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, mae'r Cyngor Sir yn y broses o resymoli ei bartneriaethau statudol ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd. Bydd y broses hon yn arwain tuag at greu un Partneriaeth Strategol ac un Cynllun Integredig. Mae'r ddwy Sir eisoes wedi creu Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd ac mae camau o'r fath yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu a grymuso'r iaith Gymraeg ar lefelau strategol, darparu gwasanaethau a phartneriaethol.

6. Dadansoddiad o Berfformiad fesul Blaenoriaeth/Targed

Adroddir isod gynnydd y prif flaenoriaethau a risgiau, gyda rhai ohonynt yn rhai newydd a'r gweddill yn barhad o gyfnodau adrodd blaenorol.

Gweithred	Targed	Diweddariad
Mabwysiadu Strategaeth Sgiliau (hwn yw'r brif flaenoriaeth a risg)	Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn dymuno gweld y Strategaeth wedi'i mabwysiadu erbyn 31/1/11	Strategaeth Sgiliau a'r Cynllun Gweithredu wedi'u cymeradwyo gan y Tîm Rheoli ar 23/9/11. Diweddariad i'r Awdit Sgiliau wedi'i gynnal yn ystod y cyfnod gwerthuso swyddi ac wedyn ym mis Chwefror, 2012. Trefniadau ar y gweill i gasglu data ar ofalwyr ysgolion. Meddalwedd Adnoddau Dynol Northgate yn weithredol gogyfer cofnodi a dadansoddi ystadegau.
Gweithredu'r Cynllun Hyrwyddo a Hwyluso Gweithleoedd Dwyieithog (Cynyddu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn y Weinyddiaeth)	Cwblhau erbyn canol Mehefin, 2011	Prosiect Cynyddu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn y Weinyddiaeth wedi'i gwblhau'n llwyddiannus. Ail brosiect 'Newid Agweddau' hefyd wedi'i gwblhau'n llwyddiannus (gweler 5.1)
Cynyddu'r nifer i o staff sy'n derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith	Erbyn 31/3/12	Mae sylw cynyddol yn cael ei roi i ddatblygu'r maes hwn yn sgil llwyddiant y Cynllun Ymwybyddiaeth gyda'r Tîm Plant, Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gweithred	Targed	Diweddariad
		Trwy'r Fenter laith cynhaliwyd sesiynau Ymwybyddiaeth laith ar 3/9/11 i Arweinyddion a staff y Clybiau Ieuentid. Pencampwyr laith o fewn y Canolfannau Hamdden wedi derbyn Ymwybyddiaeth laith (gweler 2)
Integreiddio'r laith i broses Asesu Risg y Cyngor	Yn unol ag amserlen Cynllun Adfer y Cyngor	Wedi cyflwyno ystadegau ar benodiadau i'r Grŵp Tasg laith.
Ceisio barn defnyddwyr am safon gwasanaethau cyfrwng Cymraeg	Cynnal hapwiriad o wasanaethau llinell flaen erbyn Medi, 2010	Ceisiwyd barn y cyhoedd am wasanaethau Cymraeg, a'r defnydd o'r Gymraeg trwy Arolwg Dinasyddion a gynhaliwyd ym Mawrth, 2012 (gweler 2)
Cynnal Aseidiadau effaith ieithyddol ar bolisiau a chynlluniau'r Cyngor Sir	Rhan o Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Cydraddoldeb a fabwysiedir erbyn 1/4/12	Gweler y cynnydd yn y maes hwn dan y pennawd 5.6.

Yn ogystal â'r uchod, mae capasiti yr **Uned Gyfieithu** yn parhau i fod yn risg yn dilyn colli swydd wag dan yr arbedion ynghlwm â'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy yn y flwyddyn gyllidol 2011/12. Mae hyn yn gadael tri chyfieithydd amser llawn yn lle'r pedwar gwreiddiol, ynghyd â chymorth clericyddol a chyllideb fechan ar gyfer allanol gwaith mewn argyfwng. Gall y pwysau parhaus ei gwneud hi'n gynyddol anodd i gwrdd â gofynion y Cynllun laith a'r rhaglen gydweithio.

7. Cyhoeddi Gwybodaeth ar Berfformiad

Cyflwynir yr Adroddiad Monitro i gyfarfodydd y Grŵp Tasg laith (22 Mai 2012), y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (7 Mehefin 2012) a hefyd i gyfarfod Bwrdd y Comisiynwyr (18 Mehefin 2012). Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar gyfer y cyhoedd ar wefan y Cyngor Sir ac mewn llyfrgelloedd ar yr ynys.

Cynllunio Gwasanaeth Dwyieithog

Amcan	Gweithred	Amserlen / Targed	Cyfrifoldeb	Cynnydd at 1/6/12
<p>Polisiâu a Mentrau Newydd</p> <p>Byddwn yn parhau i brif ffrydio'r Gymraeg i bolisiâu, strategaethau a phenderfyniadau allweddol trwy gryfhau ein trefniadau.</p>	<p>Cynnal asesiadau effaith ar bolisiâu, strategaethau a phenderfyniadau allweddol y Cyngor Sir.</p>	<p>Hyfforddiant ar gael i staff allweddol yn ystod Tachwedd, 2011.</p> <p>Templed a threfn gorfforaethol mewn lle erbyn 1/4/12.</p>	<p>Penaethiaid Gwasanaeth gyda'r Uned Bolisi yn cynnig arweiniad.</p>	<p>Cynhaliwyd hyfforddiant yn ystod Tachwedd, 2011 a Chwefror, 2012</p> <p>Templedi ar gael ar y fewnwyd.</p>
<p>Gweinyddiaeth Fewnol</p> <p>Byddwn yn parhau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol y Cyngor.</p>	<p>Cynnal y prosiect 'Newid Agweddau - Cynyddu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn y Weinyddiaeth' dan Gynllun Gweithleoedd Dwyieithog Bwrdd yr Iaith trwy gynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith a darparu pecynnau i uwch swyddogion a rheolwyr, comisiynwyr ac aelodau'r Pwyllgor Gwaith.</p>	<p>31/12/11</p>	<p>Ymgynghorydd allanol dan nawdd Bwrdd yr Iaith Gymraeg.</p>	<p>Prosiect wedi'i gwblhau'n llwyddiannus ac Adroddiad Diwedd Prosiect wedi'i ddarparu i Fwrdd yr Iaith erbyn 31/3/12</p>
<p>Byddwn yn annog gwasanaethau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol</p>	<p>Cynnal cynllun Pencampwyr Iaith o fewn y gwasanaethau</p> <p>Penaethiaid Gwasanaeth i lunio Cynlluniau Gweithredu Gwasanaeth</p> <p>Monitro cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg trwy ddata'r Uned Gyfieithu.</p>	<p>Parhaus</p> <p>1/4/12</p> <p>Parhaus</p>	<p>Penaethiaid Gwasanaeth/Uned Bolisi</p> <p>Penaethiaid Gwasanaeth/Uned Bolisi</p> <p>Uned Bolisi/Adain Gyfieithu</p>	<p>Canllaw gweithredu wedi'i baratoi i Bencampwyr</p> <p>Parhau i ddadansoddi'r patrymau defnydd o'r Gymraeg.</p>

Cyflwyno Gwasanaeth Dwyieithog

Amcan	Gweithred	Amserlen / Targed	Cyfrifoldeb	Cynnydd at 1/6/12
<p>Gwasanaethau ar Gontract</p> <p>Byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfleu ac yn monitro gofynion y Cynllun Iaith i gyrrff trydydd parti sy'n darparu gwasanaeth trwy gontract ar ran y Cyngor.</p>	<p>Cynnal archwiliad o sampl o gontractau i sicrhau cydymffurfiaeth ieithyddol.</p> <p>Diweddarau'r Canllawiau i Staff ar osod gwasanaethau trwy gontract i gyd-fynd ag egwyddorion 'Canllaw Caffael' Bwrdd yr Iaith</p>	<p>Llunio rhaglen dreigl o gontractau i'w harchwilio erbyn 1/4/12</p> <p>30/6/12</p>	<p>Uned Bolisi i arwain mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid Gwasanaeth.</p> <p>Uned Bolisi</p>	<p>Lithriad yn y targed hwn oherwydd gofynion eraill.</p> <p>Wedi cychwyn adolygu gofynion y 'Canllaw Caffael'.</p>
<p>Gwasanaeth Ieuenctid</p> <p>Byddwn yn sicrhau fod y Gwasanaeth Ieuenctid yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg</p>	<p>Adrodd i Fwrdd yr Iaith yn yr Adroddiad Monitro ar sut y gwnaeth y Gwasanaeth hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.</p> <p>Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i arweinyddion y Clybiau Ieuenctid.</p> <p>Adnabod pencampwr iaith ar gyfer y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc</p>	<p>Yn flynyddol</p> <p>3/9/11</p> <p>31/12/11</p>	<p>Rheolwr y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc/Rheolwr y Gwasanaeth Ieuenctid</p> <p>Menter Iaith Môn mewn ymgynghoriad â'r Cyngor.</p> <p>Rheolwr y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc</p>	<p>Darparwyd adroddiad ar hyn.</p> <p>Cynhaliwyd yr hyfforddiant yn llwyddiannus.</p> <p>Pencampwr iaith wedi'i adnabod ond adnabyddir cyfleoedd pellach yn sgil Rhesymoli Partneriaethau.</p>

Atodiad 1 – Amserlen a Chynllun Gweithredu'r Cynllun Iaith (2011-14)

Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Amcan	Gweithred	Amserlen / Targed	Cyfrifoldeb	Cynnydd at 1/6/12
Gwasanaethau Trwy Gyfrwng y Gymraeg Byddwn yn ail godi ymwybyddiaeth staff	Ailgyhoeddi canllawiau i staff sy'n cynnig arweiniad ar ddarparu gwasanaeth yn newis iaith y defnyddiwr.	Wrth gyhoeddi'r Cynllun Iaith diwygiedig.	Uned Bolisi.	Wedi'i gwblhau.
Byddwn yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd	Darparu Canllaw Cyfarfodydd Dwyieithog Darparu hyfforddiant ar egwyddorion y Canllaw ar gyfer Cadeiryddion	1/4/12 1/9/12	Uned Bolisi Adain Hyfforddi	Gwaith wedi ei gychwyn.
Byddwn yn monitro ansawdd deunydd ysgrifenedig a gynhyrchir.	Darparu gwasanaeth golygu gwaith trwy'r Adain Gyfieithu	Parhaus	Adain Gyfieithu	Parhaus.
Byddwn yn monitro ansawdd y gwasanaeth a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg	Comisiynu hapwiriad o ansawdd gwasanaethau Derbyn adroddiadau gwasanaeth ar y defnydd o'r Gymraeg	Yn ystod 2013 os yw arian yn caniatáu (cynhaliwyd y diwethaf yn 2010) Blyneddol	Comisiynu ymgynghorydd allanol i ymgymryd â'r gwaith. Penaethiaid Gwasanaeth/Uned Bolisi	Hyn wedi digwydd fel rhan o'r Arolwg Dinasyddion a gynhaliwyd yn ystod Mawrth 2012. Bydd adroddiadau cynnydd ar y cynlluniau gweithredu gwasanaeth yn cael eu cynhyrchu maes o law.

Atodiad 1 – Amserlen a Chynllun Gweithredu'r Cynllun Iaith (2011-14)

Wyneb cyhoeddus y Cyngor

Amcan	Gweithred	Amserlen / Targed	Cyfrifoldeb	Cynnydd at 1/6/12
Byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg trwy dechnoleg gwybodaeth.	Ffurflenni cais am swyddi ar gael ar y lein	Gorffennaf/Awst, 2012	Adain Adnoddau Dynol/Rheolwr y Wefan	Gwaith o fewn targed.
	System democratiaeth newydd ar gael ar y wefan gyda gwybodaeth am Aelodau Etholedig, cofnodion, ymgynghoriadau dwyieithog ac e-petitiwn.	Gorffennaf/Awst, 2012	Adain Technoleg Gwybodaeth	Gwaith o fewn targed.
	Portal mynediad newydd i denantiaid tai i'w galluogi i wneud apwyntiad gyda'r Cyngor a chofnodi ceisiadau cynnal a chadw (a dilyn cynnydd) ar y lein.	Ebrill, 2013	Adain Technoleg Gwybodaeth	Gwaith wedi cychwyn.
	Sicrhau fod polisi 'Twitter' mewn lle.	Rhagfyr, 2012	Adain Technoleg Gwybodaeth	Gwaith o fewn targed.
	Sefydlu Fforwm Twristiaeth	Ebrill, 2012	Adain Technoleg Gwybodaeth	Hyn yn digwydd.
Byddwn yn parhau i sicrhau fod holl arwyddion y Cyngor yn gwbl ddwyieithog	Byddwn yn parhau i weithredu'r drefn bresennol	Anelu at 100% cydymffurfiaeth	Gwasanaeth Priffyrdd	Cyflawni hyn.
	Cyhoeddi rhestr enwau lleoedd ar wefan y Cyngor	Ebrill, 2012	Uned Bolisi/Gwasanaeth Priffyrdd	Rhestr wedi'i chyflwyno i'r Grŵp Tasg Iaith ar 22 Mai 2012.

Gweithredu ac arolygu'r Cynllun

Amcan	Gweithred	Amserlen / Targed	Cyfrifoldeb	Cynnydd at 1/6/12
Byddwn yn gweithredu Strategaeth Sgiliau Iaith y Cyngor	Cryfhau ein trefniadau monitro sgiliau ieithyddol staff fesul adran, gradd a gweithle gyda chefnogaeth meddalwedd Northgate trwy:	Yn flynyddol	Penaethiaid Gwasanaeth	Hyn wedi digwydd yn Rhagfyr, 2011. Dynodiad iaith swyddi ar gael ac yn y broses o gael eu rhoi ar y system gyfrifiadurol Adnoddau Dynol/ Cyflogau. System werthuso swyddi newydd yn cyfarch rhain.
	Ddiweddarau'r Awdit Sgiliau drwy'r broses werthuso	Rhagfyr, 2011 ac yna'n flynyddol.	Penaethiaid Gwasanaeth	
	Gynnal Awdit Swyddi	Cychwyn y broses Rhagfyr, 2011 a chwblhau erbyn diwedd Mawrth, 2012	Penaethiaid Gwasanaeth	
	Gymharu anghenion sgiliau gyda'r sgiliau sydd ar gael	Ebrill-Mai, 2012	Penaethiaid Gwasanaeth	
	Cryfhau sgiliau trwy adnabod anghenion hyfforddiant a monitro cynnydd staff yn erbyn targedau	Mehefin-Awst, 2012 (cwblhau'r gwaith)	Penaethiaid Gwasanaeth	
Byddwn yn darparu hyfforddiant iaith Gymraeg i staff	Darperir gwersi yn flynyddol trwy'r Adain Adnoddau Dynol	Adroddir ar y nifer sy'n mynychu hyfforddiant yn yr Adroddiad Monitro Blynnyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg	Adain Adnoddau Dynol	Hyn wedi digwydd.

Atodiad 1 – Amserlen a Chynllun Gweithredu'r Cynllun Iaith (2011-14)

Amcan	Gweithred	Amserlen / Targed	Cyfrifoldeb	Cynnydd at 1/6/12
Byddwn yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith	<p>Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'r pecyn anwytho i staff newydd</p> <p>Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff y Canolfannau Hamdden fel rhan o'r Cynllun Gweithleoedd Dwyieithog a noddir gan Fwrdd yr Iaith.</p> <p>Darparu modiwl ar y Gymraeg i staff ar y fewnwyd fel rhan o'r pecyn e ddysgu ar Gydraddoldeb</p>	<p>Cynhelir y sesiynau unwaith y mis (yn ddibynnol ar niferoedd)</p> <p>Tachwedd-Rhagfyr, 2012</p> <p>Ebrill, 2012</p>	<p>Adain Adnoddau Dynol</p> <p>Ar y cyd gyda 3 Cyngor Sir arall.</p> <p>Adain Adnoddau Dynol.</p>	<p>Hyn yn digwydd yn rheolaidd.</p> <p>Cyngor wedi cymryd rhan yn y Cynllun.</p> <p>Trwydded y meddalwedd heb ei adnewyddu oherwydd y gost. Ystyried opsiynau eraill.</p>
Byddwn yn sicrhau fod cwynion yn cael eu hymdrin â hwy yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor Sir	Ymgorffori'r iaith Gymraeg i'r model corfforaethol 'Pryderon a Chwynion' fel bod modd datrys achosion cyn iddynt fynd yn rhy ddyrys.	Model yn cael ei gyflwyno ar ôl etholiad lleol 2012	Swyddog Cwynion Corfforaethol	Adolygu'r sefyllfa oherwydd diffyg cyllid i gefnogi'r model.
Byddwn yn sicrhau ein bod yn monitro cydymffurfiaeth â gofynion y Cynllun Iaith	Cylch Gorchwyl y Grŵp Tasg Iaith wedi 'i adolygu i fonitro cynnydd ac adnabod risgiau.	<p>Cyfarfodydd chwarterol. Derbyn ystadegau ar benodiadau i swyddi yn chwarterol.</p> <p>Adrodd ar unrhyw risgiau neu fylchau mewn perfformiad i sylw'r Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol i'w craffu'n ymhellach fel bo'r angen.</p>	Uned Bolisi yn cydlynu.	Hyn yn digwydd.

Cwestiynau Meysydd Blaenoriaeth – Gwasanaeth Ieuenctid

Mewn ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd, gallwn adrodd fel a ganlyn:

1. Darpariaeth

Darperir y gwasanaeth ar lefel (iii) – darpariaeth gynhwysfawr.

Nifer o Glybiau Ieuenctid lle mae'r staff i gyd yn rhugl yn y Gymraeg, a'r gwasanaeth yn gwbl ddwyieithog	29 clwb
Nifer o Glybiau Ieuenctid lle mae o leiaf un aelod o staff yn Gymraeg yn rhugl yn y Gymraeg, a'r lleill yn Gymraeg ail iaith.	7 clwb
Nifer o Glybiau lle mae o leiaf un aelod o staff yn rhugl yn y Gymraeg bob nos.	36 clwb (bob clwb)
Cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Urdd a'r Ffermwyr Ifanc i gynnal rhwydwaith o glybiau Cymraeg ar draws yr ynys.	13 clwb
Cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Urdd a'r Ffermwyr Ifanc i gynnal rhaglen eang o weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn cynnwys Eisteddfodau, Chwaraeon, Cystadlaethau Adloniant, Siarad Cyhoeddus, Rali Weithgareddau, Cystadlaethau Barnu Stoc. Mae'r mwyafrif o'r gweithgareddau yn arwain at gyfle i gystadlu ar lefel Cenedlaethol yn y Gymraeg.	
Gwasanaeth Bws All-ymestyn ar y cyd hefo Mudiadau Gwirfoddol yn gwbl ddwyieithog.	3 neu 4 noson yr wythnos
Prosiect Fforymau Ieuenctid (ar y cyd hefo Mudiad y Ffermwyr Ifanc a'r Bartneriaeth Plant ac Ieuenctid). Cynhelir 5 Fforwm Dalgylch, un Fforwm Sirol, a nifer o weithgareddau tasg a gorffen eraill. Gwasanaeth yn gwbl ddwyieithog	6 Fforwm Ieuenctid
Canolfan Agored Gwobr Dug Caeredin - 2 yn ddwyieithog	2
Grwpiau ennill achrediadau mewn Cynlluniau Cyrhaeddiad Ieuenctid (ASDAN), Agored Cymru	15 grŵp
Ers mis Ionawr mae'r Gwasanaeth yn y broses o apwyntio Gweithiwr Ieuenctid Ysgol ar gyfer pob dalgylch ysgol, a byddant hwy'n gyfrifol am ddatblygu cyfleoedd achredu allgyrsiol i bobl ifanc o fewn yr ysgolion a'r clybiau Ieuenctid, drwy'r Cynllun Potensial (Arian ESF).	5 Ysgol uwchradd a'u dalgylchoedd

Atodiad 2 – Cwestiynau Meysydd Blaenoriaeth

Cynhaliwyd hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith i 68 o staff y Gwasanaeth Ieuenctid yn Medi 2011 yn y Seminar Hyfforddi Staff blynyddol. Yn unol ag amcan 5.1.2 yn adroddiad monitro'r llynedd (*"Cais i Benaethiaid Gwasanaeth baratoi Cynlluniau Gweithredu Iaith i raeadru'r iaith i'w rhaglenni gwaith"*) lluniwyd Cynllun Gweithredu Canllawiau Iaith ar gyfer y clybiau, ac fe'i cyflwynwyd i holl staff y gwasanaeth yn ystod y Seminar (copi'n amgaeedig - gweler tudalen 28). Bydd cyfarfodydd gwerthuso staff yn Ebrill-Mehefin 2012 yn monitro gyda staff y clybiau, a'r staff bugeilio, i ba raddau mae'r canllawiau yn cael eu gweithredu ym mhob clwb, yn dilyn y sesiwn hyfforddiant. Bydd cynnig cyrsiau pellach i staff sy'n methu cydymffurfio hefo'r Canllawiau Iaith.

2. Cydweithio â phartneriaid

Mae yna Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Urdd a'r Ffermwyr Ifanc i gynnig clybiau a gweithgareddau Cymraeg ar lefel ardal, sir a Chenedlaethol.

Oherwydd bod y nifer o aelwydydd ar yr ynys wedi gostwng, oherwydd methiant i gael Arweinyddion, yn ychwanegol at eu cymhorthdal arferol yn 2011-12, rhoddwyd grant o £1580 i'r Urdd i gynnal Cwrs Arweinyddion Iau, er mwyn medru sicrhau bod ganddynt bobl ifanc cymwysedig, i fedru cynyddu'r nifer o adrannau pentref, aelwydydd, a chlybiau diddordeb, a gynhelir gan yr Urdd.

Targed: 10 o bobl ifanc wedi cwblhau Cwrs Agored Cymru, lefel 2, mewn Gwaith Ieuenctid, drwy gyfrwng y Gymraeg.

Canlyniad i'w gyrraedd: Tystiolaeth o'r bobl ifanc yma yn cynnig darpariaethau newydd, neu'n symud i arwain clybiau presennol, dros y 2 flynedd nesaf.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid hefyd mewn trafodaethau gyda'r Urdd i gymryd drosodd Canolfan Ieuenctid Penmynydd, i fod yn Ganolfan Ieuenctid Wledig i'w datblygu fel canolfan i ddatblygiadau Cymraeg a gwledig ar yr ynys. Defnyddiwyd cyfran o Grant Refeniw Llywodraeth Cymru yn 2010/12 i wella cyflwr y Ganolfan i lefel derbyniol ar gyfer yr 21 ganrif, i'r diben yma.

Cyd-weithiodd Gweithiwr Datblygu Achredu'r Gwasanaeth Ieuenctid gyda'r Urdd, drwy eu dau Weithiwr Llwybrau'r Brig (Reaching the Heights - arian ESF), i gynnal dwy gyfres o'r Sgwad Sgwennu, lle enillwyd tystysgrifau Agored Cymru mewn sgiliau ysgrifennu dros ddau gyfnod o 10 wythnos (40 o bobl ifanc). Cyd-weithiwyd hefo'r Urdd hefyd i sicrhau hyfforddwyr Cymraeg i weithio tuag at alldeithiau Gwobr Dug Caeredin.

Oherwydd bod nifer aelodaeth Mudiad y Ffermwyr Ifanc wedi gostwng dros y 2 flynedd diwethaf, gweithiodd y Gwasanaeth Ieuenctid gyda Mudiad y Ffermwyr Ifanc i sicrhau arian o Grant Refeniw'r Cynulliad i Wasanaethau Ieuenctid i weithio ar Becyn Marchnata ar gyfer y Mudiad i greu delwedd gyfoes

Atodiad 2 – Cwestiynau Meysydd Blaenoriaeth

Targed oedd i:

- Lunio cynllun marchnata
- Cynllunio a chynhyrchu defnyddiau marchnata deniadol e.e. pamffledi, posteri, baneri, a phapur ysgrifennu newydd.

Canlyniad i gyrraedd ato yn 2012-13 – cynyddu aelodaeth y Mudiad o 1.4% i 2% o bobl ifanc Cymraeg y sir, o fewn oedran targed y Mudiad.

Gweithiodd y Gwasanaeth Ieuencid gyda Mudiad y Ffermwyr Ifanc i sicrhau Grant Refeniw i aelodau'r Mudiad i ddilyn cyrsiau Iechyd a Diogelwch fydd yn eu galluogi i gynnal gweithgareddau cymdeithasol i'r Gymuned Gymraeg/cefn gwlad. Hefyd yn galluogi'r mudiad i weithio i godi incwm i'r Mudiad i gadw'r mudiad a'r clybiau'n hyfyw.

Targed oedd i:

- 12 o bobl ifanc wedi cymhwyso mewn Cymorth Cyntaf a 12 mewn Hylendid Bwyd, Lefel 2.

Canlyniad: Aelodau'r mudiad yn gallu paratoi lluniaeth o ansawdd uchel (ac mewn rhai digwyddiadau rhedeg bar) mewn digwyddiadau Cymraeg neu ddwyieithog, a chynyddu'r cyfloed i gymdeithasu yn y Gymraeg.

e.e. Cinio Dathlu Mudiad y Ffermwyr Ifanc (200 yn bresennol); Cinio Pen-blwydd Sioe Môn (200); Noson Wobrwyo Llais Ni (250); I ddod mis Mai - Noson 'Soch, Jig a Swig' (hefo Celt a Chowbois Rhosbotwnnog) - anelu i gael 600 yn bresennol.

Mae'r gwasanaeth Ieuencid yn cyd-weithio gyda'r Ffermwyr Ifanc a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc i redeg Prosiect Datblygu Cyfranogi **Llais Ni** (yn cynnal 5 Fforwm Ieuencid Ardal, ac 1 Fforwm Ieuencid Sirol). Mae'r gwasanaeth hefyd yn gweithio yn yr ysgolion cynradd i ddatblygu fforymau ysgol fel prosiectau tasg a gorffen. Er mwyn gwarchod y prosiect yma, ariannwyd y gwaith o arian craidd y Bartneriaeth Plant ac Ieuencid yn 2011/12, ac mae'r cyllid newydd ei gadarnhau eto am 2012/13 gan y Bwrdd Strategol.

Canlyniad:

- 50 o bobl ifanc wedi magu hyder i drafod materion o bwys iddynt hwy yn gyhoeddus mewn fforymau trafod, a chyflwyniadau.
- 2 ddiwrnod lle mae aelodau'r Fforymau wedi cymryd drosodd Siambr y Cyngor, a chynnal sesiynau Holi ac Ateb ffurfiol hefo Aelodau Etholedig a Swyddogion y Cyngor, yn ystod Wythnos Democratiaeth ac un i Gyflwyno Canlyniadau Prosiectau Ymchwil y Fforymau. O ganlyniad, mae'r bobl ifanc yn meithrin sgiliau trafod yn y Gymraeg, defnyddio offer cyfieithu-ar-y-pryd yn hyderus, ac arfer i weld trafodaethau yn Siambr y Cyngor yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf. Cadeiriwyd y cyfarfod a llywiwyd y trafodaethau gan aelodau Llais Ni. Yn y tymor hir hefyd, anelir i fagu diddordeb Ieuencid yr ynys yn y broses ddemocrataidd, at y dyfodol, ac felly cyd-weithio hefo Cynllun Adfer y Cyngor.
- Cynnal Noson Wobrwyo flynyddol i gydnabod ymarfer da mewn meysydd cyfranogi, gyda chydabod rhagoriaeth mewn defnydd a datblygu'r Gymraeg fel un o'r categorïau.

Atodiad 2 – Cwestiynau Meysydd Blaenoriaeth

3. Sgiliau Staff

Recriwtio Staff - Proffil Staff Gwasanaeth Ieuenctid

	Staff Llawn-amser	Staff Rhan-amser
Staff Rhugl eu Cymraeg	11	62
Staff Cymraeg Ail-iaith	2	13
Staff Di-Gymraeg	0	1

Swyddi Llawn-amser - Cymraeg yn hanfodol. Rhyddheir staff sy'n dymuno i fynyachu cyrsiau Gloywi Iaith yn ystod eu hamser gwaith, er mwyn gwella eu sgiliau i ddefnyddio'r iaith. Disgwylir i bob gohebiaeth fynd allan yn ddwyieithog o'r brif swyddfa.

Staff Rhan-Amser - Cymraeg yn hanfodol mewn 30 clwb ieuenctid, ac yn ddymunol yn y 6 arall. Yn y clybiau lle bo'r Gymraeg yn ddymunol, sicrheir bod o leiaf un aelod o staff yn rhugl yn y Gymraeg. Penderfynir ar yr ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn ddymunol yn ôl y ganran o bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn yr ardal.

Disgwylir i bob clwb ddilyn y Canllawiau Iaith Gymraeg i glybiau, gyflwynwyd yn y Seminar yn 2011 (copi'n amgaaedig – tudalen 28). Mae staff bugeilio yn monitro i sicrhau bod hyn yn cael ei weithredu ym mhob clwb. Dilynr hyn gyda hyfforddiant pellach os bydd angen yn cael ei adnabod yn y Cyfarfodydd Gwerthuso yn ystod Ebrill-Gorffennaf.

Sicrheir wrth gyfsweld staff newydd fod gan bob aelod o staff ewyllys da tuag at yr iaith Gymraeg.

Mae'r gwasanaeth yn monitro'n flynyddol faint o aelodau sy'n nodi eu bod yn Gymraeg, hefo rhywfaint o sgiliau Cymraeg, ac yn ddi-Gymraeg.

4. Cyllid

Adran	Mudiad	Cytundeb	Swm	Hyd y cytundeb	Sylwadau
Ieuenctid	Yr Urdd	CLG	£19,580	2 flynedd	I'w adolygu yn 2012-13
Ieuenctid	Clwb Ffermwyr Ifanc Ynys Môn	CLG	£19,580	2 flynedd	I'w adolygu yn 2012-13
Ieuenctid	Gwas Ieuenctid		£4,000		Darparu cyfieithwyr ar y pryd, mewn cyfarfod lle bo angen.

Atodiad 2 – Cwestiynau Meysydd Blaenoriaeth

Adran	Mudiad	Cytundeb	Swm	Hyd y cytundeb	Sylwadau
leuenctid	Yr Urdd	Yn ôl telerau'r grant	£1580	1 flwyddyn	Cwrs i Arweinyddion Iau drwy gyfrwng y Gymraeg
leuenctid (drwy Grant Refeniw Llywdrth Cymru)	C Ff I	Yn ôl telerau'r grant	£3,720	1 flwyddyn	Pecyn Marchnata i gynyddu aelodaeth y Mudiad
leuenctid (drwy Grant Refeniw Llywdrth Cymru)	C Ff I	Yn ôl telerau'r grant	£840	1 flwyddyn	Cynyddu sgiliau i alluogi aelodau i gynnal gweithgareddau Cymdeithasol Cymraeg.
PPI	Gwas leuenctid a C Ff I	CLG	£45,000	1 flwyddyn	Datblygu Prosiect Llais Ni (cyfranogi)
leuenctid	Urdd ac C Ff I		£6,000	Blynyddol	Cynnal a chadw Canolfan leuenctid Penmynydd – Canolfan Gymraeg Wledig


Gweithredir y Gwasanaeth leuenctid yn gwbl ddwyieithog, felly mae costau hyn yn rhan o weinyddiad sylfaenol hanfodol yr adran.

5. Ymgynghori

Ymgynghorwyd ar gynnwys y 'Canllawiau Iaith ar gyfer Clybiau' drwy aelodau'r clybiau, mewn grwpiau ffocws.

Trafodwyd cynnwys y ddogfen fel rhan o'r Gweithdy yn y Seminar Staff blynyddol yn Medi 2011, a bydd trafodaethau pellach ar weithrediad y canllawiau yn y Cyfarfodydd Gwerthuso.

Derbyniwyd adborth nifer fechan o staff bod y Canllawiau Iaith yn gwneud iddynt deimlo dan fygythiad oherwydd ei diffyg gallu yn y Gymraeg, felly mae angen gweithio ymhellach i sicrhau ewyllys da bob aelod o staff i weithredu'r polisi.

 <p>CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL</p>	<p>Adran Addysg a Hamdden GWASANAETH IEUENCTID Education & Leisure Department YOUTH SERVICE</p>
--	---

**CANLLAWIAU POLISI IAITH GYMRAEG AR GYFER CLYBIAU
GWASANAETH IEUENCTID YNYS MÔN
WELSH LANGUAGE POLICY GUIDELINES FOR
ANGLESEY YOUTH SERVICE YOUTH CLUBS**

(Mae polisi iaith llawn y Cyngor ar gael ar www.ynysmon.gov.uk)
(The full Welsh Language policy is available on www.anglesey.gov.uk)

<p>Mae 74.7% o blant rhwng 3-15 yn siarad Cymraeg Mae 63.9% o bobl ifanc rhwng 16-25 yn siarad Cymraeg. Mae gan y Gwasanaeth Ieuenctid felly rôl <u>bwysig iawn</u> mewn cynnig darpariaeth yn y Gymraeg i bobl ifanc y sir, ac mewn annog ein pobl ifanc i fod yn defnyddio'r iaith, yn naturiol a rheolaidd.</p>	<p>74.7% of children from 3-15 speak Welsh. 63.9% of young people from 16-25 speak Welsh The Youth Service therefore has an <u>extremely important</u> role to play in providing a service to young people through the medium of Welsh, and in encouraging young people to use their Welsh, naturally and regularly.</p>
<p>CANLLAWIAU AMLWG PWYSIG</p>	<p>IMPORTANT + OBVIOUS GUIDELINES</p>
<p><u>Gohebiaeth a gwybodaeth ysgrifenedig:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Pob gohebiaeth neu wybodaeth ysgrifenedig sy'n mynd allan gan y clwb i fod yn ddwyieithog • Pob poster mae'r clwb yn gynhyrchu i fod yn ddwyieithog • Pob papur pennawd i fod yn ddwyieithog • Pob arwydd i fod yn ddwyieithog • Pob defnydd arddangos i fod yn ddwyieithog • Unrhyw wefan neu dudalen electronig (e.e. facebook, twitter) a ddatblygir ar ran y clwb i fod yn ddwyieithog. • Unrhyw gyswllt hefo'r Wasg i fod yn ddwyieithog. • Defnyddiwch iaith syml bob amser. • 	<p><u>Correspondence and written information:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • All correspondence and written information to be bilingual • All posters produced by the club to be bilingual • All headed paper to be bilingual • All signs to be bilingual • All display material to be bilingual • Any website or electronic communication (e.g. facebook, twitter) etc to be bilingual • All contact with the Press to be bilingual • Always use simple language.

Atodiad 2 – Cwestiynau Meysydd Blaenoriaeth

<p>Os ydych yn gallu siarad yr iaith – cychwynnwch bob sgwrs yn Gymraeg!</p>	<p>If you speak the language, start each conversation in Welsh!</p>
<p>STAFFIO Dilynir canllawiau Polisi Iaith y Cyngor wrth recriwtio a phenodi staff.</p> <p>Ceisir sicrhau fod pob aelod o staff yn gallu siarad, y Gymraeg, ond lle na fo hyn yn bosib, sicrheir bod o leiaf un aelod o staff ym mhob clwb, bob nos, yn gallu siarad a/neu ddeall Cymraeg.</p>	<p>STAFFING The service follows the Council's Welsh Language Policy when recruiting and appointing staff.</p> <p>The service aims to ensure all staff members are able to speak Welsh, but where this was not possible, it ensures that there is at least one member of staff each night that can speak and/or understand the language.</p>
<p>MONITRO Mae'r gwasanaeth yn monitro defnydd o'r iaith Gymraeg yn gyson ym mhob clwb, ac yn cadw gwybodaeth ar allu ieithyddol staff a'r aelodau sy'n defnyddio'r gwasanaeth.</p>	<p>MONITORING The service monitors the use of the Welsh Language in its clubs, and maintains records on the language ability of staff and the members who use the service.</p>
<p>HYFFORDDIANT Mae'r gwasanaeth yn annog ei staff i ddefnyddio'r iaith Gymraeg, ac yn cynnig sesiynau hyfforddiant mewn Ymwybyddiaeth Iaith.</p>	<p>TRAINING The service encourages staff to use the Welsh Language, and offers sessions in Welsh Language Awareness to all staff.</p>
<p>GOHEBIAETH GYDA STAFF Darperir bob gohebiaeth a gwybodaeth i staff un ai'n Gymraeg, neu'n ddwyieithog.</p>	<p>CORRESPONDENCE WITH STAFF All correspondence with staff is done either through the medium of Welsh or bilingually.</p>
<p>ATEB YMHOLIAD WYNEB YN WYNEB NEU AR Y FFÔN Atebir y ffôn yn ddwyieithog, a siaradir gyda'r person sy'n galw, yn yr iaith o'u dewis. Cofiwch ymateb i ymholiad wyneb yn wyneb neu dros y ffôn yn newis iaith y cwsmer.</p> <p>Os yw'r ymholiad yn Gymraeg ac ni ellwch siarad yr iaith, eglurwch hynny'n gwrtais gan ofyn a yw'r cwsmer eisiau siarad yn Gymraeg. Os dyna eu dymuniad, pasiwch yr ymholiad i siaradwr Cymraeg. Pan nad oes neb ar gael, dywedwch y bydd siaradwr Cymraeg yn cysylltu cyn gynted â phosib.</p> <p>Os oes gennych beiriant ateb, sicrhewch fod y neges arno'n ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.</p> <p>Os ydych yn ddysgwyr, pam ddim cymryd y cyfle i ymarfer eich Cymraeg!</p>	<p>ANSWERING THE PHONE OR FACE TO FACE ENQUIRIES The telephone is answered bilingually, and the caller may speak with the service in the language of their choice. Please remember to respond to face to face or phone enquiries in the customer's chosen language.</p> <p>If you have an answering machine, ensure that the message is bilingual, in Welsh first.</p> <p>If the enquiry is in Welsh and you can't speak the language, explain the situation politely and ask whether the customer wishes to speak Welsh. Should he or she wish to do so then refer the enquiry to a Welsh speaker. When nobody is available say that a Welsh speaker will get in touch as soon as possible.</p> <p>If you are a learner, why not take the opportunity to practice your Welsh!</p>

Gwybodaeth Bwysig o Bolisi Iaith y Cyngor Important Information from the Council's Welsh Language Policy

(am y polisi llawn, gweler gwefan y Cyngor ar www.ynysmon.gov.uk)
(for the full policy, see the Council website on www.anglesey.gov.uk)

<p>Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod statws cyfartal i'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg.</p>	<p>Anglesey County Council recognises equal status to the English and Welsh language.</p>
<p>Mae diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a datblygu'r defnydd phonic oddi fewn ac oddi allan i'r Cyngor yn un o amcanion sylfaenol y Cyngor.</p>	<p>Safeguarding and promoting the Welsh language and developing its use, within the Council and outside it, is one of the Council's basic objectives.</p>
<p>Bydd y Cyngor yn darparu gwasanaeth cyflawn i'r cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg ar draws ei holl wasanaethau.</p>	<p>The Council will provide the public with a full bilingual service in Welsh and English across all its services.</p>
<p>Mae'r Cyngor yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 a thrwy hynny yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cynnig i'r cyhoedd yr hawl i ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ddelio â'r Cyngor. • cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith. • cydnabod bod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio eu dewis iaith yn fater o arfer da, nid goddefiad. • cydnabod y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith roi aelodau o'r cyhoedd mewn sefyllfa anafanteisiol 	<p>The Council respects the principle of equality in the Welsh Language Act 1993, and accordingly:</p> <ul style="list-style-type: none"> • offers the public the right to choose which language to use in their dealings with the Council • recognises that members of the public can express their views and needs better in their preferred language • recognises that enabling the public to use their preferred language is a matter of good practice, not a concession • recognises that denying them the right to use their preferred language could place members of the public at a real disadvantage.
<p>Nod y Cyngor yw sicrhau mai Cymraeg fydd prif iaith gweinyddiaeth fewnol y Cyngor, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Er mwyn cyflawni hyn bydd y Cyngor yn monitro cynnydd yn flynyddol.</p>	<p>The Council's aim is to ensure that Welsh will be the Council's main language for both oral and written internal communication. In order to achieve this, the Council will monitor progress annually.</p>
<p>Bydd pob cylchlythyr neu femorandwm mewnol cyffredinol yn ddwyieithog, p'un a ydyw ar bapur neu ar ffurf e-bost. Bydd staff yn cael eu hannog i anfon memoranda at ddarllenwyr Cymraeg yn y Gymraeg.</p>	<p>All internal circulars and general memoranda shall be bilingual, whether on paper or e-mail. Staff shall be encouraged to send memoranda to Welsh readers in Welsh.</p>

Atodiad 2 – Cwestiynau Meysydd Blaenoriaeth

<p>Gydag unrhyw ohebu dwyieithog, bydd yr ohebiaeth ar ffurf gyfochrog, gyda'r Gymraeg ar y chwith a'r Saesneg ar y dde.</p> <p>Lle nad ydyw'n bosibl neu'n ymarferol cyhoeddi'r ddwy iaith ar yr un ddalen neu yn yr un ddogfen, bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd, ac yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd a bydd hi'r un mor hawdd i gael copi o'r testun yn y naill iaith neu'r llall.</p>	<p>In the case of any bilingual correspondence, the correspondence will be in parallel format, with the Welsh on the left and the English on the right.</p> <p>Where it is impossible or impracticable to publish both languages on the same sheet or in the same document, the two languages will be equal as to form, size, legibility, prominence and quality and will be published at the same time, and it will be as easy to obtain a copy of the text in the one language as in the other</p>
<p>Anogir staff i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â'i gilydd ar lafar ac yn ysgrifenedig. Darperir y pecyn meddalwedd cyfrifiadurol 'Cysill/Cysgair' i staff er mwyn annog a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.</p> <p>Serch hynny, bydd gan aelodau staff y Cyngor yr hawl i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg cyn belled ag y bo hynny'n gyson â darpariaethau'r Cynllun hwn ac nad yw'n amharu'n sylweddol ar effeithiolrwydd cyfathrebu mewnol.</p>	<p>Staff shall be encouraged to use Welsh in communicating with one another orally and in writing. The computer software programme 'Cysill/Cysgair' is provided for staff to encourage and promote the use of the Welsh Language.</p> <p>However, members of the Council's staff will have a right to work through the medium of Welsh or English insofar as that is consistent with this Scheme and does not substantially impair the effectiveness of internal communications.</p>
<p>Bydd unrhyw bapur newydd, cylchlythyrau neu lythyrau safonol a yrrir at y cyhoedd yn ddwyieithog.</p>	<p>Any newspapers, circulars or standard letters dispatched to the public will be bilingual.</p>
<p>Pan fydd swyddog di-Gymraeg, neu swyddog ansicr ei Gymraeg, yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg bydd yn sicrhau cymorth cydweithiwr neu gyfieithwyr y Cyngor er mwyn ymateb yn Gymraeg i'r ohebiaeth. Oni ddefnyddir gwasanaeth y cyfieithwyr defnyddir cydweithiwr sydd â Chymraeg ysgrifenedig o safon uchel.</p>	<p>When a non-Welsh speaking officer or an officer who is uncertain of his/her Welsh medium skills deals with correspondence in Welsh, he/she will obtain the assistance of a colleague or of the Council's Translators, so that the correspondence can be answered in Welsh. If the Translators' services are not employed, a colleague with a high standard of written Welsh will be consulted.</p>
<p>Bydd wyneb cyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor yn gwbl ddwyieithog</p>	<p>The Council's public face and corporate identity will be completely bilingual.</p>
<p>Bydd holl arwyddion mewnol ac allanol y Cyngor yn gwbl ddwyieithog.</p>	<p>All internal and external signs will be completely bilingual.</p>

Cwestiynau Meysydd Blaenoriaeth – y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc

Mewn ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd, gallwn adrodd fel a ganlyn:

Sut ydych chi fel awdurdod lleol yn sicrhau bod aelodau eich Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn cydymffurfio â gofynion eich Cynllun Iaith Gymraeg?

Cynhelir gweithgareddau'r Bartneriaeth yn ddwyieithog. Mae ymrwymiad o fewn amodau gorchwyl a threfniadau llywodraethu'r Bartneriaeth i gynnal cyfarfodydd dwyieithog, gyda Thîm Cefnogi'r Bartneriaeth yn gyfrifol am drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ôl yr angen.

Sut ydych chi'n asesu i ba raddau mae'r gwasanaethau cyfrwng Gymraeg a ygnigir drwy'r Bartneriaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc y sir?

Mae'r grwpiau thema a sefydlwyd gan y Bartneriaeth yn gyfrifol am sicrhau yr adlewyrchir barn plant a phobl ifanc yn eu trafodaethau a'u penderfyniadau. Daw ystyriaethau o ran yr iaith Gymraeg o dan gyloch gorchwyl Grŵp Thema 4 - Chwarae, Hamdden a Diwylliant.

Mae 'Llais Ni' yn gweithio hefo plant a phobl ifanc 0-25 mlwydd oed i ddatblygu cyfranogiad ymhlith plant a phobl ifanc yr ynys. Un o amcanion y prosiect yw sicrhau bod plant ac ieuenctid yn ganolog yn y broses o gynllunio gwasanaethau.

Mae'r bobl ifanc sy'n rhan o Llais Ni wedi bod yn gweithio hefo'r Bartneriaeth i gynnal hyfforddiant i'r oedolion sy'n darparu gwasanaethau i bobl ifanc a phlant ar sut i hyrwyddo cyfranogiad effeithiol a llawn pobl ifanc a phlant yn eu gwaith.

Y cwestiynau perthnasol sydd yn y templed ar gyfer cynnal asesiadau effaith

Cwestiwn 10 - A yw'r polisi / maes gwaith yma'n sicrhau cydraddoldeb i'r ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn unol â Chynllun Iaith y Cyngor?

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth cyflawn i'r cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg ar draws ei holl wasanaethau. Dylid sicrhau bod unrhyw gynlluniau, mentrau neu bolisiau a fabwysiedir gan y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â Chynllun Iaith y Cyngor.

Cwestiwn 11 - Oes cyfle drwy'r polisi / maes gwaith i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd?

Cwestiwn 12 - Pa gyfraniad posibl sy'n cael ei gynnig drwy'r polisi / maes gwaith yma tuag at sicrhau bod diwylliant hanesyddol a chyfoes yr Ynys yn ffynnu ac yn llwyddo?

Mae Cynllun Iaith y Cyngor yn cyfeirio at yr angen i geisio cryfhau dylanwad y Cyngor ar faterion ieithyddol a hyrwyddo'r Gymraeg ym mywyd yr Ynys. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ymrwymiad i 'ddiogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg, diwylliant a threftadaeth' sy'n cyfrannu at un o flaenoriaethau strategol y Cyngor - Adeiladu a Chefnogi Cymunedau Cynaliadwy.

Dylid sicrhau bod y Cyngor yn manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r iaith o fewn ei gymunedau.

Materion pellach i'w hystyried o ran yr iaith Gymraeg

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi adnabod cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth edrych sut bydd bolisiau neu fentrau yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol - (yn eu dogfen 'Cyngor ar brif ffrydio'r iaith Gymraeg).

Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y polisi, menter neu'r gwasanaeth dan sylw. Y bwriad yw gwneud i chi feddwl am effaith neu gyfraniad ehangach posibl ac mae modd eu defnyddio fel sail ar gyfer ystyried y tri chwestiwn uchod fel rhan o'ch asesiad cychwynnol. Fodd bynnag, wrth edrych ar sut fyddai **prif** bolisiau a strategaethau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg, argymhellir y dylid ystyried y cwestiynau hyn yn fwy manwl er mwyn cynnal asesiad cynhwysfawr. Mae'r cwestiynau wedi'u rhestru yn **Atodiad 1**.

Atodiad 1 – Yr Iaith Gymraeg – Cwestiynau ychwanegol

1 – Cydymffurfiaeth â'r Cynllun Iaith Gymraeg

1a. A yw'r polisi neu gynllun arfaethedig yn ddylanwadol o ran delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg?

- A fydd gweithgareddau megis gohebu drwy lythyr, cyfathrebu dros y ffôn, cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill yn cydymffurfio â'r cynllun iaith?
- A fydd unrhyw ddatblygiad TG newydd yn cydymffurfio â'r cynllun?

1b. A yw'r polisi neu ddatblygiad yn debygol o effeithio ar wyneb cyhoeddus y sefydliad?

- A fydd unrhyw arwyddion yn cydymffurfio â'r cynllun iaith?
- A fydd unrhyw gyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio?
- A fydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio?
- A fydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio?

1c. A yw'r polisi neu fenter yn debygol o gael effaith ar weithrediad y cynllun iaith?

- A fydd y polisi'n creu swyddi newydd?
- A fydd y trefniadau staffio yn hwyluso gweithrediad y cynllun iaith?
- A fydd y polisi neu fenter yn cynnig hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg?
- A fydd unrhyw drefniadau gyda thrydydd parti yn cydymffurfio â'r cynllun iaith?
- A fydd y polisi neu fenter yn cynnwys unrhyw dargedau neu ddangosyddion ynglŷn â'r Gymraeg?
- Sut caiff cyrhaeddiad ei fonitro a'i fesur?

2 – Effaith ar ddefnyddwyr iaith Gymraeg

2a. A fydd y polisi yn cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr?

- A fydd modd i ddefnyddwyr ddewis unrhyw elfen o'r gwasanaeth yn Gymraeg?

2b. Oes perygl i'r polisi neu gynllun gam wahaniaethu yn erbyn defnyddwyr Cymraeg?

- A yw anghenion siaradwyr Cymraeg wedi'i gynllunio mewn i'r polisi?
- A yw siaradwyr Cymraeg yn debygol o dderbyn yr un safon o wasanaeth a'r hyn a dderbynnir yn Saesneg?
- A yw trefniadau iaith Gymraeg yn debygol o arwain at oedi yn y gwasanaeth?

2c. A fydd y polisi neu weithgaredd yn debygol o wneud y Gymraeg yn fwy gweledol?

- A yw'n debygol o gynyddu defnydd drwy gynhyrchu deunyddiau ac arwyddion Cymraeg?
- A yw'n debygol o ddylanwadu ar eraill i wneud mwy o ddefnydd gweledol o'r Gymraeg ee busnesau?

2ch. A fydd y gwasanaeth Gymraeg ynghlwm â'r polisi yn hygyrch?

- A fydd gwasanaeth yr un mor hawdd i'w gael yn Gymraeg a Saesneg?
- A fydd gwasanaethau ar gael yr un pryd?

3 – Effaith ar gymunedau Cymraeg

3a. A yw'r polisi neu'r fenter yn cynnig camau fydd yn debygol o ddiogelu'r Gymraeg mewn cymunedau?

- A yw'n debygol o gyfrannu tuag at ymdrechion i ddelio gyda heriau newid demograffeg a mudo - fel cynnig cyfleoedd i bobl ifanc aros yn eu cymunedau?
- A yw'n debygol o gyfrannu tuag at yr economi leol mewn cymunedau Cymraeg?
- A fydd yn darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg – megis gwarchod plant?

3b. A yw'r polisi neu fenter yn cymryd camau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg?

- A yw'r polisi'n cyfrannu at fywyd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg?
- A yw'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau'r ysgol?
- A yw'n darparu gwasanaeth newydd fydd hefyd ar gael yn Gymraeg? Ee darpariaeth neu weithgaredd hamdden neu chwaraeon?
- A yw'n cyfrannu neu'n ychwanegu gwerth at weithgareddau eraill yn y maes iaith? – ee gwaith y Fenter Iaith Leol, yr Urdd ayyb.

4 - Cyfraniad tuag at gynlluniau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg

4a. Cynlluniau iaith mudiadau partner neu gyrff cyhoeddus cyfagos:

- A yw'r awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ar y polisi neu gynllun?
- Pa sefydliadau eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y datblygiad?
- Oes gan y sefydliadau hynny gynlluniau iaith?
- A yw'r polisi'n cyfrannu at y cynlluniau hyn?

4b. Strategaethau iaith Gymraeg perthnasol:

- Sut mae'r polisi neu gynllun yn cyfrannu tuag at amcanion a gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn Iaith Pawb? (gweler isod)
- A fydd y polisi neu gynllun yn cyfrannu tuag at strategaeth y Fenter Iaith leol?

Targedau allweddol yn iaith Pawb (2.16) - Erbyn 2011:

- Bod y ganran o bobl Cymru sy'n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu 5 pwynt canran o'r ffigwr a ddaw i'r amlwg o gyfrifiad 2001;
- Bod y lleihad yn nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan dros 70% o'r boblogaeth yn cael ei atal;
- Bod cynnydd yng nghanran y plant sy'n derbyn addysg cyn-ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Bod cynnydd yng nghanran y teuluoedd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith sgwrsio/cyfathrebu ar yr aelwyd;
- Ei bod yn bosibl i gyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ddarparu mwy o wasanaethau, trwy gyfrwng y Gymraeg.

DRAFT